

Canllawiau ar gyfer Ceisiadau am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis. Dylent hefyd fod yn ymwybodol bod swyddi athrawon a darllenyddion yn swyddi arweiniol, felly dylai ceisiadau ddangos tystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr - yn ogystal â chyrraedd rhagoriaeth unigol.

1 Meini Prawf Craidd ar gyfer Ymgeiswyr am Ddyrchafiad i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol

Staff sy'n ceisio am swydd Darllenydd:

Ymchwil - Rhaid i staff dangos enw da rhyngwladol addawol yn eu maes ymchwil.

Addysgu a Dysgu - Rhaid i staff dangos enw da cyson a sylweddol ac awdurdod neilltuol yn eu pwnc yn y Brifysgol, a meddu ar bresenoldeb addawol yn y sector AU.

Gyfraniad Ehangach - Rhaid i staff dangos enw da addawol yng Nghymru, ym Mhrydain ac o bosibl ar lefel rhyngwladol.

Staff sy'n ceisio am Gadair Bersonol:

Ymchwil - Disgwylir i staff sy'n dymuno cael eu hystyried am ddyrchafiad i swydd Athro fod wedi ennill enw da yn rhyngwladol yn eu maes.

Addysgu a Dysgu - Disgwylir i staff fod yn adnabyddus yn eu pwnc a chydag awdurdod neilltuol yn eu pwnc, ac yn meddu ar bresenoldeb cyson yn y sector AU yng Nghymru, Prydain ac o bosibl yn rhyngwladol.

Gyfraniad Ehangach - Bydd disgwyl i ymgeiswyr yn y maes hwn ddangos cyfraniadau cyson a sylweddol yng Nghymru, ym Mhrydain ac o bosibl ar lefel rhyngwladol.

2 Meini Prawf a Dangosyddion o ran Dyrchafu

Mae'r meincnodau a welir yn y ddogfen 'Meincnodau a Dangosyddion Asesu – Dyrchafu i swydd Darllenydd a Chadair Bersonol' yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion yn ceisio tystiolaeth arnynt. Mae'r meincnodau wedi'u hategu gan y dangosyddion sydd wedi'u cynllunio i beidio â bod yn hollgynhwysol nac yn rhagnodol ond, yn hytrach, yn enghreifftiau o'r dystiolaeth y disgwylir iddi gael ei hamlinellu mewn cais: *ni ddisgwylir i ymgeiswyr ateb yr holl feini prawf ym mhob maes.*

3 Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu ynddo sy'n rhydd rhag gwahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r drefn ar gyfer dyrchafu fod yn deg, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â pholisiau cyfleoedd cyfartal y Brifysgol.

6 Enwebu aseswyr allanol / canolwyr

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y ceir achos *prima facie*, ceisir asesiadau annibynnol ar y cais, oddi wrth o leiaf bedwar canolwr. Dylai tri o'r rhain fod yn unigolion allanol a fydd, fel rheol, yn athrawon yn yr un pwnc/ maes neu mewn pwnc/ maes perthnasol.

Dylai'r rhain fod yn ysgolheigion a berchir ar lefel gadeiriol lawn (neu gyfatebol), heb hanes o gydweithredu'n agos na chyhoeddi â'r ymgeisydd. Fel rheol, dylid enwebu o leiaf un aseswr rhyngwladol.

Y Pwyllgor yn y pen draw fydd yn pennu enwau'r aseswyr allanol y gofynnir am eu sylwadau.